

Creu ar Draws Ieithoedd: Dulliau ysgrifennu creadigol mewn ILLaCh. Cyfle am ddysgu proffesiynol i athrawon Ieithoedd Rhyngwladol, Cymraeg a Sasesneg.

Dyddiad: Dydd Mercher 24/5/23 **Amser:** 9am – 3:30pm **Lleoliad:** Venue Cymru, Llandudno

Cliciwch yma i **gofrestru** <https://forms.office.com/e/8yb5U0Xq4n> Dyddiad cau cofrestru yw **Dydd Mercher, 10/5/23**
Sylwch: cofrestrwch eto gan ddefnyddio'r ddolen newydd hon, hyd yn oed os oeddech chi wedi cofrestru ar y sesiwn a drefnwyd yn wreiddiol ym mis Mawrth.

Bydd y digwyddiad hwn yn edrych ar fanteision dysgu ieithoedd drwy ddulliau creadigol (sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr), gyda phwyslais ar sut all celf a barddoniaeth annog ymdeimlad o berchnogaeth creadigol ar sgiliau ieithyddol mewn Ffrangeg a Sbaeneg. Dangosir sut y gall barddoniaeth amlieithog gynnig dulliau o gyd-ddylunio'r cwricwlwm yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd cyfle i gomisiynu deunyddiau addysgu gan feirdd ac artistiaid.

Bydd yr Athro Zoë Skoulding sy'n fardd a chyfieithydd o Brifysgol Bangor, yn dangos **rhai dulliau ysgrifennu creadigol** sy'n tynnu ar dechnegau o farddoniaeth Ffrangeg, ac **yn datblygu ar y prosiect Creu ar Draws Ieithoedd** a ddatblygwyd gyda Dyfodol Byd-eang GwE. Gweler y 'Prosiect Creu ar Draws Ieithoedd - Cynllunio ar draws MDaPh ILLaCh ar <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/ieithoedd-modern-a-rhyngwladol-sector-uwchradd/>

Bydd Dr Andrés Anwandter, bardd ac ymchwilydd o Chile sy'n byw ym Mhrydain, ynghyd â grŵp o artistiaid ryng-ddisgyblaethol o'r DU a Chile, Montenegrofischer yn cyflwyno technegau perfformio a thraws-gyfyngol ar gyfer y dosbarth Sbaeneg. Gellir **addasu'r rhain i ieithoedd eraill.**

Yn ymuno â ni yn y prynhawn (dros Zoom) fydd Dr Jérôme Melançon, bardd o Brifysgol Regina yn Saskatchewan, sef talaith ddwyieithog yng Nghanada. Bydd yn arwain gweithdy mewn cyfieithu creadigol.

Yn dilyn y gweithdai ymarferol hyn, bydd cyfle i drafod. Wedi'r diwrnod, bydd yr artistiaid gwadd yn creu fideos byrion i'w defnyddio gydag ysgolion, yn seiliedig ar sylwadau o'r sesiwn.

Bydd y diwrnod yn cefnogi athrawon wrth iddynt **gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru**, yn enwedig o ran yr elfen Lenyddiaeth a chyflwyno gwaith iaith mewn ffyrdd creadigol.

Mentora ITM 2023-2024

Cofiwch fanteisio ar y cyfle i gofrestru ar gynllun Mentora Blwyddyn 8/9. Nodweddion newydd a fformatau gwahanol ar gael. Dyddiad cau **cofrestru 26/5/23**.

Gwybodaeth i ysgolion newydd: [Ysgolion Newydd - Gwybodaeth am y prosiect 2023/24 \(office.com\)](#)

Gwybodaeth i'r ysgolion presennol: [Ysgolion Presennol - Gwybodaeth am y prosiect 2023/24 \(office.com\)](#)

Mamiaith, Ail Iaith: Cystadleuaeth Routes Cymru i ddisgyblion

Mae'r gystadleuaeth boblogaidd Mamiaith, Ail Iaith, yn dychwelyd i Gymru. Mae Routes Cymru yn gwahodd cynigion gan ddisgyblion Blwyddyn 4 i Flwyddyn 13!

Am fwy o wybodaeth ac i gyflwyno cynnig **cyn diwedd mis Mai**, cliciwch yma.

[Mamiaith, Ail Iaith – Llwybrau at Ieithoedd Cymru Routes into Languages Cymru](#)

Am wybodaeth Dyfodol Byd-eang GwE, :**cysylltiadau o fewn y tîm, partneriaid a newyddlenni blaenorol**, cliciwch yma: [leithoedd Tramor Modern - GwE \(gwegogledd.cymru\)](http://leithoeddTramorModern-GwE.gwegogledd.cymru)

I gael eich ychwanegu at **restr bostio Dyfodol Byd-eang GwE** cliciwch yma

<https://forms.office.com/e/xGRHPEDsxN>

Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Stephanie Ellis-Williams: stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru